**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 7 RHAGFYR 2023 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Shan Rees (Cadeirydd), Janet Knott, Philip Davies, Jenny Jones, Rheinallt Jones, Meinir James, Eifion Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans, ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng Viv Davies, Elfyn Williams, Carys Thomas a Nicola Jones.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 2il Tachwedd 2023.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
4. **FP29/4 Pentrepoeth** – Derbyniodd y Cyngor gadarnhad nad oedd y Cyngor Sir wedi gallu cysylltu â'r tirfeddiannwr diwethaf i gael caniatâd ar gyfer y gwaith ar eu heiddo. Roedd y Cyngor Sir felly yn edrych ar opsiynau ar gyfer y mater. Nodwyd.
5. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
6. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaeros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
7. **Damweiniau ym Mancycapel -** Darparwyd gwybodaeth am ddamwain arall yn yr ardal, bydd hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Sir. Derbyniodd y Cyngor ddiweddariad bod y Cyngor Sir yn gobeithio cyhoeddi gorchymyn yn cynnwys y cynigion 40mya ar gyfer Bancycapel ym mis Ionawr. Bydd barn y Cyngor bod angen cyfyngu ar oddiweddyd yn cael ei hailadrodd i'r Cyngor Sir. Nodwyd.
8. **Gwylio Cyflymder Cymunedol –** Nododd y Clerc ei fod yn aros am waith papur gan ddarpar aelodau'r Gofal Cyflymder. Nodwyd byddai angen i'r Cyngor brynu'r camera cyflymder a siacedi melyn i'r aelodau. Nodwyd bod y camera cyflymder a awgrymwyd gan yr heddlu yn costio tua £200.00. Bydd y Clerc yn gofyn am wybodaeth gan yr Heddlu ar:
    - Pa mor aml y disgwylir i'r gofal cyflymder fod yn cyflawni gweithgareddau;
    - Faint sydd angen bod 'yn gweithio' gyda'i gilydd

- Beth sy'n digwydd i'r canfyddiadau / a ysgrifennir at unrhyw droseddwyr ac yn y blaen.

9. **Bin Capel Rama –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
10. **Ymweliad posib â Gwaith Trin Dŵr Carwe –** Bydd dyddiad ar gyfer yr ymweliad yn cael ei ddarparu rhywbryd yn y flwyddyn newydd.
11. **Pyllau dŵr rhwng Garthowen a Bryngors** – Adroddodd y Clerc am ymateb e-bost yn cadarnhau diffyg opsiynau mewn perthynas â'r pyllau dŵr oherwydd nad oes cwrs dŵr yn yr ardal a dim ond allfa fechan i mewn i gae cyfagos ar gael. Nodwyd.
12. **Diwrnodau Agored Heddlu Dyfed Powys** – Nodwyd bod digwyddiadau'r diwrnod agored wedi bod yn ymweliadau diddorol iawn.
13. **Rhodd i Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog ac Urdd Gobaith Cymru** – Derbyniwyd nodiadau o ddiolch am rhoddion y Cyngor. Nodwyd.
14. **Byrddau hysbysebu yng Nghyffordd Bolahaul –** Derbyniwyd hysbysiad o ymchwiliad gorfodi mewn perthynas â hysbysebu anawdurdodedig ar gyffordd Heol Bolahaul, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA31 2LW wrth y Cyngor Sir. Nodwyd.
15. **Cludiant Ysgol ar hyd y B4309 o amgylch Bancycapel a Phontantwn** – Adroddodd y Clerc am ymateb ebost yn cadarnhau nad oedd y polisi gollwng plant wedi newid ond nid oedd bob amser yn bosibl trefnu llwybrau cerbydau i basio yn agos i gartrefi pob disgybl. Nodwyd felly mai rhieni oedd yn gyfrifol am wneud trefniadau i gael plant i ac o fannau codi a gollwng dynodedig. Nodwyd.
16. **Arwyddion Dangosyddion Cyflymder –** Nodwyd hysbyseb gan Westcotec Ltd ar gyfer arwyddion cyflymder yn rhifyn mis blaenorol Clerks and Councils Direct. Bydd y Clerc yn gofyn am wybodaeth am brisiau’r darnau offer hyn.
17. **Digwyddiadau Cymunedol** – Nododd y Cadeirydd lwyddiant diweddar ddigwyddiadau Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog a Ffair a goleuadau Nadolig Llandyfaelog.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru** – Cytundeb Cyflog y Clerc 2023-24. Nodwyd mai £8,669.19 oedd Cyflog y Clerc ar bwynt 23. Nodwyd a chytunwyd hyn.
2. **Newyddion Sir Gâr Ar-lein** – Cais am wybodaeth am gofnodion, newyddion a digwyddiadau. Nodwyd.
3. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** – Ymgynghoriad: Strategaeth Diogelwch Ffyrdd. Nodwyd
4. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys** – Ymgynghoriad – Cyllideb Plismona 2024-25. Nodwyd.
5. **Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** – Ymgynghoriad: Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2040. Nodwyd.
6. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau Hyfforddiant Tachwedd a Rhagfyr. Nodwyd.
7. **Llanelli Standard** – Rhifyn 56 a 57. Nodwyd.
8. **Banc Barclays** – Datganiad. Nodwyd.
9. **Llywodraeth Cymru** – Hysbysiad o’r Swm Briodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel £10.81 ar gyfer 2024-25. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin** - Cau ffordd frys yr C2057 rhwng Llandyfaelog a Glanyfferi ar 7$^{fed}$ Tachwedd. Nodwyd.
11. **Cyngor Sir Caerfyrddin** - Cau ffordd brys yr C2073 yng Nghroesyceiliog o ddydd Mercher 22$^{ain}$ Tachwedd 2023 am gyfnod o 3 diwrnod. Nodwyd.

12. **Un Llais Cymru** – Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol i'w chynnal ar 27ain Mawrth 2024. Nodwyd
13. **Un Llais Cymru –** Bwletin Newyddion. Nodwyd.
14. **Heddlu Dyfed Powys –** Bwletin. Nodwyd.
15. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru –** Cylchgrawn Calon Tan. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. **Padiau Diffibriliwr**

Cadarnhaodd y Clerc bod dyddiad dod i ben padiau diffibriliwr fel a ganlyn:

- Zol AED Plus 28/3/24 Llandyfaelog
- Zol AED 3 2/5/24 Cwmffrwd
- Zol AED Plus 9/8/24 Glanmorlais
- Zol AED Plus 23/8/24 Croesyceiliog
- Zol AED Plus 4/8/24 Constant
- Zol AED Plus 16/5/24 Bancycapel
- Zol AED 3 2/5/24 Idole

Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans mewn perthynas ag ailosod y padiau.

2. **Archwiliad Cae Chwarae**

Adroddodd y Clerc ei fod wedi derbyn yr Archwiliad Cae Chwarae Blynyddol gan Play Insepction Company. Ni dderbynnir unrhyw eitemau uwchlaw risg isel. Trafodwyd atgyweiriadau lle'r oedd angen gyda'r Atgyweiriwr Cymunedol a darparwyd dyfynbris am rannau gan y cyflenwr Kompan gyda phris £57.92 ynghyd â TAW. Cytunwyd hyn.

3. **Arolygiad Amwynderau**

Darparodd y Clerc adroddiad o archwiliad amwynderau gyda'r Atgyweiriwr Cymunedol a thrafodwyd atgyweiriadau i'w cwblhau.

4. **Coed i Cae Idole**

Nododd y Clerc costau coed posibl ar gyfer gwahanol rywogaethau. Cytunwyd i edrych i prynu 2 coeden fedwen arian a ceirios gwyllt i'w plannu yng Nghae Idole.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Tachwedd gyda chyfanswm cost o £560.00, cymeradwywyd hyn.

**9. Digwyddiadau Gymunedol 2023**

Trafododd y Cyngor y trefniadau a cafwyd ar gyfer Sul y Cofio.

Cytunwyd taliad o £20 at gostau'r Bugler a £30 am y Dorch i'r Lleng Brydeinig Frenhinol.

**10. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

**1. Nododd y Cyng Rheinallt Jones ei ddiddordeb yn y mater a gadawodd y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth y cais.**
**Ffederasiwn CFFI Sir Gâr –** Cytunwyd rhodd £50.00.
**2. Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Caerfyrddin -** Cytunwyd rhodd £100.00.
**3. Nododd y Cyng Janet Knott, Philip Davies a Rheinallt Jones eu diddordeb yn y mater a gadawodd y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth y cais. Nododd y Cyng Shan Rees, er bod ganddi ddiddordeb yn y mater, ei bod yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor.**
**Neuadd Gymunedol Llandyfaelog – Goeden Nadolig -** Cytunwyd rhodd £100.00.
**4. Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Canser -** Gohiriwyd ystyried y cais.
**5. Opera Ieuenctid Caerfyrddin –** Cytunwyd rhodd £50.00.
**6. Eisteddfod Gadeiriol yr Urdd Maldwyn 2024 –** Dim cyfraniad.

**11. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Y Lleng Brydeinig Frenhinol** **£30.00** Torch (gweler eitem 9)

| **2.** | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Tachwedd ad-daliad a costau** | **£722.43<br>£303.59** | **£26.00<br>£7.00<br>£9.90<br>£6.00<br>£20.00** | **£1,094.92** | **£420.20** | | **£674.72** |

3. **Michael Leefe** £560.00 Atgyweiriwr Tachwedd (gweler eitem 8)
4. **Opera Ieuenctid Caerfyrddin** £50.00 Rhodd (gweler eitem 10.5)
5. **Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Caerfyrddin** £100.00 Rhodd (gweler eitem 10.2)
6. **Ffederasiwn CFFI Sir Gâr** £50.00 Rhodd (gweler eitem 10.1)
7. **Neuadd Gymunedol Llandyfaelog** £100.00 Rhodd (gweler eitem 10.3)
8. **Nododd y Cyng Janet Knott, Philip Davies a Rheinallt Jones eu diddordeb yn y mater a gadawodd y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth y cais. Nododd y Cyng Shan Rees, er bod ganddi ddiddordeb yn y mater, ei bod yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor.**
   **Neuadd Gymunedol Llandyfaelog** £600.00 Cyfraniad Blynyddol

**12. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nododd y Clerc problemau gyda threfnu gwaith trwsio ffyrdd yn ardal Pwll y Baw yn ystod y tywydd garw diweddar.
2. Nododd y Clerc ei fod wedi adrodd am y bin yn Bancycapel gan nad oedd wedi ei wagio ers peth amser.
3. Nododd y Clerc adroddiadau bod y bin ym Mhenygraig wedi ei symud i ffwrdd. Roedd y Cyng Meinir James yn gwneud ymholiadau ar y mater.
4. Nodwyd bod Gwasanaeth Plygain i'w gynnal yng Nghapel Penygraig ar y 10fed Rhagfyr.
5. Nodwyd bod bag glas wedi cael ei dipio'n anghyfreithlon yng nghysgodfan bws Llandyfaelog.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 4ydd Ionawr 2023.**